

Cymwysterau Crist

“Trwy ba awdurdod yr wyt ti’n gwneud y pethau hyn? Pwy roddodd i ti’r awdurdod hwn?” (adn. 23)

Beth am ddarllen Mathew 21:23–27 ac yna myfyrio

Petai Iesu wedi dod i’r byd yn yr unfed ganrif ar hugain yn hytrach na’r ganrif gyntaf a gweithredu yn y modd y gwnaeth, mae’n debyg y byddai’n cael ei ystyried fel llyegwr. Doedd ganddo yr un cysylltiad ag unrhyw ysgol; nid oedd o dan reolaeth unrhyw gorff crefyddol. Yn y darlleniad heddiw, rydym yn darganfod fod yr Iddewon yn holi Iesu, gan fynnu gwybod drwy ba awdurdod yr oedd yn gwneud yr hyn yr oedd yn ei wneud. Mae’n adrodd dwy ddameg wrthynt sydd yn dangos eu bod hwy â mwy o ddi-ddordeb mewn trefn nag effeithiolrwydd ysbrydol. Yn dilyn hyn, maent yn edrych am ffordd i’w arestio, oherwydd, yn ôl adn. 45: “Gwyddent mai amdanynt hwy yr oedd yn sôn”. Roedd y prif offeiriad a’r henuriaid eisiau gweld cymwysterau Iesu. Ond yr unig gymwysterau oedd ganddo oedd y bywydau oedd wedi eu newid wrth dderbyn ei Air ac wrth ei ddilyn fel disgyblion.

Yn gynharach wrth ddarllen, fe welwyd fod Ioan Fedyddiwr yn coleddu ambell amheuaeth, ac felly, dyma anfon ei ddilynwyr i ofyn: “Ai Ti yw yr un sydd i ddod ai a ddylem ddisgwyl rhywun arall?” (Mathew 11:3). Ymateb Iesu oedd y geiriau hyn: “Y mae’r deillion yn cael golwg, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a’r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newyddion da” (11:5). Ac yna mae’n ychwanegu’r geiriau grymus hyn yn adnod 6: “Gwyn ei fyd y sawl na ddaw cwmp iddo o’r hachos i.” Nid oedd Iesu am i amheuaeth lethu Ioan, felly, mae’n darparu cymwysterau ei weinidogaeth, y ffeithiau a’r digwyddiadau oedd yn canlyn y weinidogaeth.

Ar achlysur arall ym Mathew 7:16, fe ddywed Iesu: “Trwy ei ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.” Yr her sydd yn gorwedd o’n blaen ni bellach yw nid pwy sydd yn gallu meddu awdurdod eglwysig, ond pwy sydd yn gallu dwyn ffrwyth sydd yn aros? Y gwir yw, mae pobl leyg yr un mor effeithiol wrth ddwyn ffrwyth ysbrydol â phobl sydd wedi eu hordeinio.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 11:30; Ioan 15:1–16; Rhuf. 7:4; Gal. 5:22–23; Col. 1:10

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pwy sydd yn cael eu gorchymyn i ddwyn ffrwyth ysbrydol?
2. Beth yw rhai o’r ffrwythau hyn?

Gweddi

O Dad, wrth i mi ystyried y mater yma, rwy’n sylweddoli fwyfwy mai un o’r pethau sydd yn her i’r Eglwys heddiw yw cael gweld pobl leyg yn troi o fod yn gynulleidfa i fod yn weithwyr. Arglwydd, cynorthwya dy Eglwys i gyfarfod yr her hon. Er mwyn Iesu. Amen.